Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Telerau ac amodau cyllid

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn ddilys nes i’r sector gael gwybod fel arall

Cyhoeddwyd Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Cymhwyso’r ddogfen hon ... 3
Diben a chwmpas y Cyllid ... 4
Talu’r Grant ... 4
Atebolrwydd ... 5
Ansawdd y ddarpariaeth addysg ... 6
Digwyddiadau Hysbysu a’u Canlyniadau ... 6
Monitro ac adrodd ... 6
Gofynion archwilio ... 7
Gwybodaeth ... 7
Rheoli’r ystâd yn ddarbodus ... 8
Prynu nwyddau a gwasanaethau ... 8
Atodiad A: Rhestr Geirfa ... 9
Atodiad B: Digwyddiadau Hysbysu ... 10

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon yn nodi telerau ac amodau cyllid a ddarperir gan Medr. Mae Medr yn dosbarthu arian gan Lywodraeth Cymru trwy ddyfarnu grantiau. Mae’r telerau ac amodau’n cefnogi cyfrifoldeb Medr i sicrhau ein bod yn cyflawni’r gwerth gorau am arian, yn monitro cynaliadwyedd ariannol y darparwyr a gyllidir gennym, ac yn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y’i rhoddwyd ar eu cyfer.

2. Mae’r telerau ac amodau hyn a’r llythyr dyfarnu Grant sy’n cyd-fynd â hwy’n dweud wrthych pa wybodaeth y bydd arnom ei hangen gennych i ateb ein gofynion monitro; ochr yn ochr â’ch rhwymedigaethau cyffredinol i Medr.

3. Yn ogystal â’r ddogfen hon, bydd Sefydliadau’n cael llythyr dyfarnu Grant ar gyfer y flwyddyn, a fydd yn manylu ar yr arian a fydd yn cael ei dalu i’r sefydliad a’r ddarpariaeth addysg neu’r ddyletswydd y mae’n ofynnol i’r sefydliad/derbynnydd y grant ei chyflawni yn gyfnewid am yr arian hwnnw. Rhaid darllen y telerau ac amodau hyn ar y cyd â’r dibenion a’r targedau a nodir yn y Llythyr cynnig Grant ac yn amodol ar y rheiny.

4. Mae’r diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon wedi’u nodi yn ‘*Atodiad A: Rhestr Geirfa*’.

## Cymhwyso’r ddogfen hon

5. Nid yw’r ddogfen hon yn drech, lle y bo’n briodol, na gofynion siarter derbynnydd y grant, ei statudau (neu'r hyn sy’n gyfwerth â hwy) a’r gyfraith sy’n ymwneud â statws elusennol y sefydliad ond mae wedi’i bwriadu i’w hategu a’u hatgyfnerthu. Ni fydd unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r sefydliad weithredu mewn modd a fyddai’n peri iddo golli ei statws elusennol, neu a fyddai’n anghyson â’i siarter a’i statudau.

6. O bryd i’w gilydd gallwn, o fewn canllawiau dilynol, atodi gofynion gorfodol ychwanegol wrth amodau’r cyllid, yn dilyn ymgynghori’n briodol â’r sector.

7. Nid yw’r ddogfen hon yn disodli’r Cod Rheolaeth Ariannol (FMC) (W17/16HE), ond mae’n gweithredu ochr yn ochr â’r Cod Rheolaeth Ariannol, a rhaid i sefydliadau a reoleiddir gydymffurfio â’r gofynion yn y Cod Rheolaeth Ariannol hefyd.

8. Daeth y ddogfen hon i rym o 1 Awst 2024, a bydd yn parhau i fod yn ddilys nes i’r sector gael gwybod fel arall. Nid yw’r ddogfen hon yn disodli unrhyw delerau ac amodau mewn perthynas â grantiau a wnaed cyn 1 Awst. Yn yr achosion hynny, mae hawliau a rhwymedigaethau dan y contract a oedd yn bodoli eisoes wedi cael eu trosglwyddo i Medr.

## Diben a chwmpas y Cyllid

9. Ni ddylai derbynnydd y grant ond defnyddio'r Grant at y dibenion a amlinellir yn y llythyr Dyfarnu Grant ac yn unol â'r telerau ac amodau a nodir yn y Cytundeb hwn. Ni ddylid defnyddio'r Grant at unrhyw ddiben arall heb gytundeb ysgrifenedig Medr ymlaen llaw.

10. Gall arian nas defnyddir at y diben y'i rhoddwyd ar ei gyfer gael ei adhawlio.

11. Nid yw Medr yn gwneud unrhyw ymrwymiad i adnewyddu cyllid na pharhau â chyllid ar ôl cyfnod y Cytundeb hwn ac ni fydd yn atebol am unrhyw gostau ychwanegol sy'n dod i'ch rhan chi naill ai yn ystod neu ar ôl Cyfnod y Cyllid.

12. Mae derbynnydd y grant yn cytuno ac yn derbyn na fyddwch yn ymgeisio am gyllid dyblyg mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Gweithgareddau a Gyllidir nac unrhyw gostau gweinyddu cysylltiedig y mae Medru yn eu cyllido'n llawn fel rhan o'r cynnig Grant.

13. Mae derbynnydd y grant yn cytuno y byddwch yn cynnal systemau ariannol, risg a diwydrwydd dyladwy priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant a/neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti.

## Talu'r Grant

14. Telir y Cyllid ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'r Cytundeb hwn a pha bynnag amodau eraill y gallwn eu nodi o bryd i'w gilydd.

15. Bydd y Grant yn cael ei dalu yn unol â'r proffil talu a amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant.

16. Ni fydd Medr ond yn talu'r cyllid mewn perthynas â gwariant cymwys a ysgwyddir gan dderbynnydd y grant i gyflawni'r gweithgareddau a gyllidir sydd wedi'u hamlinellu yn y Llythyr dyfarnu Grant.

17. Rhaid i dderbynnydd y grant ad-dalu unrhyw arian a dalwyd yn anghywir i chi gennym ni, naill ai o ganlyniad i wall gweinyddol neu fel arall, a hynny'n brydlon.

18. Ceidw Medr yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ad-dalu'r cyfan neu ran o unrhyw arian a dalwyd iddo os yw'r Sefydliad yn methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau a atodwyd gan Medr wrth dalu'r arian hwnnw.

19. Ceidw Medr yr hawl hefyd i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliad dalu llog yn ôl cyfradd o 2 y cant uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fo swm sy'n ddyledus i Medr dan y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, neu unrhyw amod arall, yn dal heb ei dalu.

20. Yn eu rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, gall Prif Weithredwr Medr (neu uwch swyddog a ddynodwyd felly gan y Prif Weithredwr) atal grant rhag cael ei dalu, naill ai'n gyfan

gwbl neu'n rhannol a naill ai'n barhaol neu dros dro, os yw'n briodol ac yn rhesymol gwneud hynny yn eu tyb hwy er mwyn diogelu arian cyhoeddus.

## Atebolrwydd

21. Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Grant yn cael ei wario mewn modd sy'n cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Cytundeb Grant.

22. Rhaid i'r Swyddog Atebol ddiogelu'r Grant, arfer rheolaeth arno a sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol.

23. Rhaid i'r Swyddog Atebol hysbysu Medr ynghylch unrhyw wendid difrifol[1], megis bygythiad sylweddol ac uniongyrchol i sefyllfa ariannol y sefydliad, twyll sylweddol neu fethiant cyfrifyddu mawr a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

24. Rhaid i'r Swyddog Atebol hysbysu Medr ynghylch unrhyw achos o dorri neu beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth y DU a gofynion rheoleiddiol.

25. Dylai'r Swyddog Atebol geisio sicrhau bod ystyriaethau ariannol, gan gynnwys unrhyw faterion o ran priodoldeb, rheoleidd-dra a gwerth am arian yn cael eu hystyried ar bob cam mewn perthynas â'r Grant.

26. Rhaid i'r Swyddog Atebol sicrhau bod derbynnydd y grant yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau Cyllid ac mae cydymffurfiaeth yn gorwedd gyda chorff llywodraethu'r Sefydliad.

27. Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am sicrhau nad yw arian gan Medr ond yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw amodau eraill a ragnodir gan Medr o bryd i'w gilydd. Dylai arian gael ei reoli yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

28. Lle y bo'n briodol, rhaid i'r Swyddog Atebol hysbysu'r corff llywodraethu ar unwaith os, ar unrhyw adeg, yw unrhyw gam gweithredu neu bolisi sy'n cael ei ystyried gan y corff llywodraethu i'w weld i'r swyddog atebol fel pe bai'n anghydnaws â thelerau'r ddogfen hon. Os yw'r corff llywodraethu'n penderfynu bwrw ymlaen er gwaethaf hynny, rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Prif Weithredwr Medr yn ysgrifenedig, a hynny ar unwaith.

29. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Medr fod yn hyderus bod gan y cyrff a gyllidir ganddo drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a fuddsoddir a threfniadau i sicrhau gwerth am arian o arian cyhoeddus.

[1] 'Diffinnir 'gwendid difrifol' fel un sydd wedi arwain, neu a allai arwain, at golli swm sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da sefydliad.

## Ansawdd y ddarpariaeth addysg

30. Bydd Estyn yn arolygu sefydliadau addysgol yn rheolaidd a bydd yn adrodd ar y deilliannau, gan gynnwys argymhellion.

31. Lle mae Medr yn adnabod pryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth, rydym yn cadw'r hawl i dynnu cyllid yn ôl.

## Digwyddiadau Hysbysu a'u Canlyniadau

32. Rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith drwy e-bost (Buddsoddi a Pherfformiad) os oes Digwyddiad Hysbysu[2] wedi bod neu'n debygol o fod, ond rydym hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi lle'r ydym ni'n credu bod Digwyddiad Hysbysu wedi bod neu'n debygol o fod.

33. Byddwn naill ai:
    - yn eich hysbysu chi ein bod ni, yn ôl ein disgresiwn llwyr, o'r farn na ellir unioni'r Digwyddiad Hysbysu; neu
    - os ydym ni o'r farn, yn ôl ein disgresiwn llwyr, y gellir unioni'r Digwyddiad Hysbysu, yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysu gyda chi gyda golwg ar gytuno ar ddull gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysu.

## Monitro ac adrodd

34. Dylai derbynnydd y grant fonitro gwariant y cyllid Grant yn fanwl trwy gydol cyfnod y Grant i sicrhau yr ymlynir wrth delerau ac amodau'r dyfarniad.

35. Rhaid i chi ddarparu pa bynnag wybodaeth, esboniadau a dogfennau y bydd Medr yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol eu darparu ar ei gyfer, gan gynnwys unrhyw ofynion monitro neu adrodd penodol a nodir yn y llythyr dyfarnu Grant, er mwyn i ni allu cadarnhau bod y Grant wedi cael ei ddefnyddio'n briodol yn unol â'r cytundeb hwn.

36. Rhaid i chi gydymffurfio â'r (a hwyluso ein cydymffurfiaeth ni â'r) holl ofynion statudol o ran cyfrifon, archwilio cyfrifon, adroddiadau blynyddol a ffurflenni blynyddol sy'n berthnasol.

37. Rhaid i chi gydweithredu'n llawn gyda'r Swyddog ar ran Medr ac unrhyw un o gyflogeion eraill Medr neu ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro eich defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

38. Os nad yw Medr yn fodlon ar y modd yr ydych yn cyflawni'r gweithgareddau a gyllidir ac yn cyflawni'r deilliannau y cytunwyd arnynt, rydym yn cadw'r hawl i dynnu cyllid yn ôl, atal taliadau cyllid neu eu canslo.

[2] Fel y diffinnir yn Atodiad B.

39. Lle mae dyfarniad grant yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o flwyddyn, bydd y Grant yn cael ei adolygu’n flynyddol, a bydd yr adolygiad yn ystyried y modd yr ydych yn cyflawni’r amcanion yn erbyn dibenion a thargedau y cytunwyd arnynt fel a amlinellir yn y llythyr dyfarnu Grant.

## Gofynion archwilio

40. Rhaid i’r sefydliad gadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys sy’n nodi’r holl incwm a gwariant mewn perthynas â’r dibenion.

41. Rhaid i’r Sefydliad ddarparu data sy’n ofynnol boed ar gyfer cyfrifo cyllid neu at ddibenion adrodd a dadansoddi eraill ar gyfer Medr, HESA neu sefydliadau eraill fel y bo’n ofynnol gan Medr.

42. Archwilydd Cyffredinol Cymru, yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a Medr. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl i edrych ar gyfrifon unrhyw dderbynnydd grant sy’n cael grant gan Medr neu gyllid gan Lywodraeth Cymru a chynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

43. Rhaid i chi gadw’r llythyr hwn a’r holl ddogfennau gwreiddiol sy’n ymwneud â’r Cyllid am naill ai chwe blynedd neu ddeng mlynedd o ddyddiad taliad olaf y cyllid, fel a amlinellir yn Rhestr cadw a gwaredu Llywodraeth Cymru.

## Gwybodaeth

44. Rydych yn cydnabod ein bod ni’n ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 a fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (EU 2016/670) (“GDPR y DU”).

45. Rydych yn cydnabod ein bod ni’n gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn llwyr:
   a. a ddylid datgelu unrhyw wybodaeth yr ydym wedi’i chael dan y Cyllid neu mewn cysylltiad ag ef i’r graddau y mae’n ofynnol i ni ddatgelu’r wybodaeth honno wrth berson sy’n gwneud cais am ddatgeliad dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; a/neu
   b. a yw unrhyw wybodaeth yn esempt rhag cael ei datgelu dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Er mwyn eglurder, ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth sensitif am sefyllfa ariannol darparwr fel arfer, heblaw at ddibenion briffio rhesymol, gan ystyried bod darparwyr yn rhannu’r wybodaeth honno gyda Medr ar sail gyfrinachol, a chan hefyd ystyried y gellid achosi niwed trwy ei datgelu.

46. Rydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata y byddwch chi’n ei ddarparu ar ein cyfer ni gydag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Bydd unrhyw ddata personol a gesglir gennym yn cael eu rheoli yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Medr.

47. Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau'n peri bod unrhyw hawliau mewn unrhyw eiddo deallusol a grëwyd gennych chi o ganlyniad i'r Dibenion yn cael eu trosglwyddo i ni.

48. Rydych yn cytuno, o ddyddiad y llythyr hwn tan bum mlynedd ar ôl dyddiad y taliad Cyllid olaf, y gallwn gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes, y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo gan Medr ac rydych hefyd yn cytuno i gydweithredu gyda'n ceisiadau rhesymol er mwyn gallu cynhyrchu'r deunyddiau hynny.

## Rheoli'r ystâd yn ddarbodus

49. Dylai derbynnydd y grant fod yn ystyried Sero Net wrth gyflawni yn erbyn dibenion y grant a ddyfarnwyd.

50. Lle y bo'n briodol rhaid i sefydliadau barhau i adolygu eu daliadau tir a'u hadeiladau, gan amcanu at resymoli a gwaredu'r rhai nad oes mo'u hangen mwyach ym marn y sefydliadau.

## Prynu nwyddau a gwasanaethau

51. Os byddwch chi'n penderfynu prynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i ateb y Dibenion yn y llythyr Dyfarnu Grant, rhaid iddynt gael eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod
    - (i) wedi cael y gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus,
    - (ii) wedi cydymffurfio â'ch polisi gwrthdaro buddiannau ar yr un pryd, a
    - (iii) wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'ch polisi caffael a oedd yn ei le ar yr adeg berthnasol.

52. O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich cydymffurfiaeth â'r amod hwn. Gall tystiolaeth o'r fath fod ar ffurf tystiolaeth o'r canlynol:
    - a. eich cydymffurfiaeth ag unrhyw reoliadau caffael, deddfwriaeth neu ganllawiau sydd yn eu lle o bryd i'w gilydd yr ydych chi, neu unrhyw berson sy'n cynnal busnes neu'n cyflawni swyddogaeth o'r un natur â chi neu o natur debyg i chi, yn ddarostyngedig iddi/iddynt; neu
    - b. eich cydymffurfiaeth â'ch polisi caffael a oedd yn ei le ar yr adeg berthnasol; neu
    - c. eich bod wedi cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig am y nwyddau a/neu'r gwasanaethau perthnasol.

53. Rhaid i chi ddarparu'r dystiolaeth honno ar ein cyfer yn brydlon yn dilyn ein cais ysgrifenedig ni am y dystiolaeth honno.

## Atodiad A: Rhestr Geirfa

Yn y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| Swyddog Atebol | Pennaeth sefydliad sy'n gyfrifol ac yn atebol i Medr (ac yn y pen draw i Senedd Cymru) am sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio arian Medr mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dibenion y rhoddwyd yr arian hwnnw ar eu cyfer a'i fod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r arian. |
| FMC | Cod Rheolaeth Ariannol |
| Corff llywodraethu | Cyngor y sefydliad, ei fwrdd llywodraethwyr neu gorff arall sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli a gweinyddu refeniw ac eiddo'r sefydliad, a'r modd y cynhelir ei faterion. |
| Sefydliad | Sefydliad addysg Uwch neu sefydliad addysg Bellach. |
| Y sefydliad | Enw'r sefydliad. |

## Atodiad B: Digwyddiadau Hysbysu

Caiff y Digwyddiadau Hysbysu eu rhestru isod:

1. mae'n ofynnol ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;

2. rydych yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r Amodau;

3. nid yw'r Cyllid, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio at y Dibenion;

4. rydych yn methu â chyrraedd unrhyw un neu rai o'r Targedau neu'r holl Dargedau;

5. ceir cynnydd anfoddhaol tuag at gwblhau'r Dibenion, gan gynnwys cyrraedd y Targedau;

6. rydych yn methu â darparu gwybodaeth am y Dibenion y gofynnwyd amdani gennym ni neu unrhyw gorff gorfodaeth cymorthdaliadau yn y DU neu unrhyw un neu rai o'i archwilwyr, asiantau neu gynrychiolwyr;

7. mae gennym reswm dros gredu eich bod chi a/neu unrhyw un neu rai o'ch Personél yn rhan o weithgarwch twyllodrus neu wedi bod yn rhan o weithgarwch twyllodrus pa un a yw'n ymwneud â'r Cyllid neu'n gysylltiedig ag ef mewn unrhyw ffordd ai beidio;

8. rydym wedi gordalu Cyllid i chi;

9. mae cyllid wedi cael ei ddyblygu mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Dibenion;

10. bu addasiad (barn amodol, anffafriol neu ymwadiad) i farn yr archwilydd ar eich datganiadau ariannol;

11. cafwyd digwyddiad neu amgylchiad sy'n parhau ac sy'n gyfystyr (neu, wedi i gyfnod gras ddod i ben, y byddai rhoi hysbysiad, gwneud unrhyw benderfyniad neu gyfuniad ohonynt yn gyfystyr) â digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y'i disgrifir) dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n eich rhwymo chi neu y mae unrhyw un neu rai o'ch asedau'n ddarostyngedig iddo;

12. mae moratoriwm mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw un neu rai o'ch dyledion neu asedau neu gompównd neu gytundeb gyda'ch credydwyr yn cael ei gytuno, ei geisio, ei orchymyn neu ei ddatgan;

13. rydych yn atal taliadau yn llwyr neu dros dro mewn perthynas ag unrhyw ddyled neu'n methu, neu'n cyfaddef yn ysgrifenedig eich bod yn methu, â thalu eich dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus;

14. mae gwerth eich asedau'n llai na'ch rhwymedigaethau (gan ystyried rhwymedigaethau digwyddiadol a darpar rwymedigaethau);

15. rydych yn dechrau negodiadau, neu'n ymrwymo i unrhyw gompównd, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant, gydag un neu fwy nag un o'ch credydwyr gyda golwg ar ailamseru unrhyw ddyledusrwydd sydd gennych (oherwydd anawsterau ariannol gwirioneddol neu ddisgwyliedig);

16. cymerir unrhyw achos cyfreithiol, gweithrediadau cyfreithiol, gweithdrefn neu gam mewn perthynas â chi sy'n ymwneud ag:
    - atal taliadau, moratoriwm mewn perthynas ag unrhyw ddyledusrwydd, dirwyn i ben, diddymu, gweinyddu neu ad-drefnu (gan ddefnyddio trefniant gwirfoddol, cynllun trefniant neu fel arall); neu
    - gompównd, cyfaddawd, aseiniad neu drefniant gydag unrhyw un neu rai o'ch credydwyr.

17. penodi datodwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr gorfodol neu swyddog arall tebyg mewn perthynas â chi neu unrhyw un neu rai o'ch asedau;

18. cyhoeddir gorchymyn statudol yn eich erbyn;

19. rydych yn rhoi'r gorau i gyflawni, neu'n bygwth atal neu roi'r gorau i gyflawni'r cyfan neu ran berthnasol o'ch busnes;

20. ceir newid i'ch cyfansoddiad, statws, rheolaeth neu berchnogaeth a/neu mae eich archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;

21. rydych yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau adrodd statudol sy'n berthnasol i chi (gan gynnwys, ymhlith eraill, gofynion cyflwyno yn Nhŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol);

22. ceir newid, boed yn un parhaol neu dros dro, yn eich cyfranddalwyr, cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr neu bartneriaid a/neu Bersonél a allai effeithio ar eich gallu i ateb y Dibenion;

23. ceir unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd yn ein tyb ni yn rhoi seiliau rhesymol dros gredu y gallai darparu'r Cyllid a/neu barhau â'r trefniadau a fwriedir gan y llythyr hwn ddwyn anfri arnom;

24. ceir unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd yn ein tyb ni'n rhoi seiliau rhesymol dros gredu efallai na fyddwch yn, neu na fyddwch yn gallu, cyflawni neu gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'ch rhwymedigaethau dan yr Amodau.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government